


## Beth yw 'Gofalu am Gaerffili' a beth yw ei hanes?

Bydd tîm 'Gofalu am Gaerffili', tîm o staff sefydledig Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, yn cynnig gwasanaeth brysbennu newydd wedi'i drefnu'n ganolog er mwyn ymateb i drigolion y Fwrdeistref Sirol hynny sydd angen cymorth gyda materion fel tlodi bwyd, ôl-ddyledion dyled neu rent, unigedd neu unigrwydd.

Oherwydd y pandemig COVID-19, fe wnaeth trigolion ofyn i'r Cyngor am gymorth, yn aml am y tro cyntaf. Daeth yn amlwg bod angen ar yr unigolion hyn ymyriadau lluosog a chymorth gan nifer o wahanol adrannau'r Cyngor.

Nod 'Gofalu am Gaerffili' yw cynnig un pwynt cyswllt i'r unigolyn gyda'r tîm a fydd yn cynorthwyo'r unigolyn hwnnw i fynd at wraidd ei fater, sy'n golygu mai dim ond unwaith y bydd angen iddo egluro ei sefyllfa.

Yna bydd y tîm yn cysylltu â'r gwasanaethau presennol, yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a gyda phartneriaid, gan gynnwys y sector gwirfoddol a grwpiau cymunedol lleol, gan gefnogi'r unigolyn hwnnw ar ei daith gyda'r gwasanaethau amrywiol hynny, o'r dechrau i'r diwedd.

Mae'n ymwneud â deall yr amrywiaeth o anghenion y gall unigolyn ei hwynebu a chanolbwyntio ar ymyrraeth gynnar i helpu'r unigolyn hwnnw i gael yr help sydd ei angen arno mewn ffordd gyfannol, sensitif.

Yn sicr, nid yw Gofalu am Gaerffili yn disodli unrhyw wasanaeth y Cyngor sy'n bodoli eisoes; yn hytrach, mae'n cynnig yr haen ychwanegol honno o gymorth i unigolyn, gan adeiladu perthynas ddibynadwy â'r unigolyn hwnnw a'i helpu ar ei daith i ddod yn fwy gwydn ac annibynnol yn y tymor hwy.

Mae hefyd yn anelu at leihau'r angen am ymyrraeth statudol.

## Pa fathau o gymorth y gall Gofalu am Gaerffili eu cynnig?

Mae hwn yn fodel tymor hir ar gyfer cynnig cymorth cyfannol i drigolion Bwrdeistref Sirol Caerffili, ond bydd ffocws cychwynnol tîm Gofalu am Gaerffili ar helpu'r trigolion gyda'r meysydd canlynol:

- Cymorth ariannol - cymorth gyda dyled, budd-daliadau a sicrhau'r incwm mwyaf posibl.
- Mynd i'r afael â thlodi bwyd.
- Helpu unigolion i gael mynediad at raglenni cymorth cyflogaeth.
- Mynd i'r afael ag unigedd ac unigrwydd.
- Cymorth ymarferol ar gyfer unigolion sydd angen help sy'n gysylltiedig â COVID-19 (fel y rhai sy'n cael cymorth gan y Cynllun Cyfeillio).
- Ymyrraeth gynnar - er enghraifft cymorth iechyd meddwl a phresgripsiynu cymdeithasol.
- Adeiladu ar bartneriaethau gyda grwpiau cymunedol.

## Yr hyn NAD yw Gofalu am Gaerffili?

Er bod cylch gwaith y cymorth y gall tîm Gofalu am Gaerffili ei ddarparu yn eang, mae yna nifer o bethau nad yw Gofalu am Gaerffili.

Nid yw yn:

- Canolfan alwadau neu switsfwrdd - mae angen i unrhyw atgyfeiriadau a wneir at y tîm fod yn benodol iawn i gylch gorchwyl Gofalu am Gaerffili fel yr eglurir yn y ddogfen hon.
- 'Ymbarél' ar gyfer ceisiadau am wasanaethau'r Cyngor.
- Gwasanaeth amnewid ar gyfer gwasanaethau eraill.

Mae tîm Gofalu am Gaerffili yn dîm ymroddedig a brwdfrydig ond bach iawn, ac mae angen iddynt flaenoriaethu cymryd atgyfeiriadau sy'n benodol i gylch gwaith yr hyn y gall Gofalu am Gaerffili ei gynnig.




## Dyma rai enghreifftiau o astudiaethau achos o Gofalu am Gaerffili ar waith

### Astudiaeth achos 1 - Trigolyn A

- Cafodd tîm Gofalu am Gaerffili atgyfeiriad cychwynnol ar gyfer parsel banc bwyd ar gyfer Trigolyn A.
- Esboniodd y trigolyn ei fod yn profi anhawster ariannol ac amgylchiadau personol anodd eraill.
- Ymatebwyd i'r cais cychwynnol (am barsel banc bwyd), ond hefyd…
- Cynhaliodd y Tîm Rhenti wiriad budd-daliadau lles a chynorthwyo Trigolyn A gyda hawlio budd-daliadau amrywiol nad oedd yn sylweddoli bod ganddo'r hawl iddynt.
- Helpodd Swyddogion Cymorth Tenantiaeth Tai y trigolyn i wneud cais am y cynllun HelpU i'w helpu i ostwng ei filiau dŵr a hefyd i wneud cais am brydau ysgol am ddim
- Gwnaethpwyd atgyfeiriadau hefyd at y Rhwydwaith Rhieni, Teuluoedd yn Gyntaf a grŵp cymunedol lleol am gymorth ychwanegol i Drigolyn A.

**Y canlyniad?**

Cymorth cyfannol a ddarparwyd gan nifer o adrannau ar ôl cael ei atgyfeirio drwy un pwynt cyswllt. Mae'r unigolyn yn well ei fyd yn ariannol a hefyd yn byw'n fwy annibynnol.

### Astudiaeth achos 2 - Trigolyn H

- Daeth yr atgyfeiriad hwn i mewn drwy Dîm Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth y Cyngor.
- Ar ôl symud i'r gymuned leol o loches yn ystod y cyfyngiadau symud, roedd angen help ar Drigolyn H.
- Atgyfeiriwyd y trigolyn at y cynllun FareShare lleol i gael bag wythnosol o siopa.
- Atgyfeiriwyd hefyd at Dechrau'n Deg a'r Rhwydwaith Rhieni i helpu Trigolyn H a'i blant i wneud ffrindiau newydd oherwydd nad oedden nhw'n dod o'r ardal.
- Cynorthwywyd y trigolyn i gael mynediad a fanc gwisgoedd ysgol er mwyn paratoi ei blant i ddechrau yn yr ysgol - nid oedd y trigolyn yn gallu prynu eitemau oherwydd y cyfyngiadau symud a'r gost.
- Atgyfeiriwyd y trigolyn at y Tîm Tai i gynnal gwiriad cymhwysedd am fudd-daliadau, ac fe'i atgyfeiriwyd hefyd at y gweithiwr cymorth Pobl lleol.

**Y canlyniad?**

Unwaith eto, cymorth cyfannol a ddarparwyd gan nifer o adrannau a sefydliadau ar ôl cael ei atgyfeirio i dîm Gofalu am Gaerffili gan dîm Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth. Dim ond unwaith yr oedd yn rhaid i'r unigolyn 'adrodd ei stori', a cafodd gymorth o'r dechrau i'r diwedd ar ei daith.

## Beth arall y mae Gofalu am Gaerffili yn anelu at ei wneud?

Mae model Gofalu am Gaerffili yn cael ei danategu gan yr egwyddorion yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Bydd y tîm hefyd yn parhau i weithio ochr yn ochr â'r sector gwirfoddol a grwpiau cymunedol, gan adeiladu ar lwyddiant yr Ymateb Cymunedol COVID-19 a amlygodd gryn dipyn o ysbryd cymunedol.

Bydd y dull cymunedol hwn yn gobeithio:

- Adeiladu ar lwyddiant yr Ymateb Cymunedol COVID-19.
- Y Cyngor, y sector gwirfoddol a chymunedau yn gweithio gyda'i gilydd mewn partneriaeth.
- Defnyddio asedau mewn cymunedau - gwneud y defnydd gorau o'r sgiliau, yr wybodaeth a'r rhwydweithiau cymdeithasol sydd ar gael mewn cymunedau, ynghyd â chymorth cymheiriaid i gefnogi eraill.
- Cysylltu â grwpiau a gweithgareddau cymunedol.
- Cyfle i harneisio a defnyddio'r gwytnwch cymunedol a ddangoswyd mewn ardaloedd ledled yr ardal.

## Sut alla i atgyfeirio fy hun at Gofalu am Gaerffili am gymorth?

Fel yr amlygwyd uchod, y ffocws cychwynnol ar gyfer Gofalu am Gaerffili yw cefnogi unigolion gyda:

- Cymorth ariannol - cymorth gyda dyled, budd-daliadau a sicrhau'r incwm mwyaf posibl.
- Mynd i'r afael â thlodi bwyd.
- Helpu unigolion i gael mynediad at raglenni cymorth cyflogaeth.
- Mynd i'r afael ag unigedd ac unigrwydd.
- Cymorth ymarferol ar gyfer unigolion sydd angen help sy'n gysylltiedig â COVID-19 (fel y rhai sy'n cael cymorth gan y Cynllun Cyfeillio).
- Ymyrraeth gynnar - er enghraifft cymorth iechyd meddwl a phresgripsiynu cymdeithasol.

**Os ydych chi'n byw ym Mwrdeistref Sirol Caerffili ac yn profi problemau gydag un neu fwy o'r rhain - hoffai tîm Gofalu am Gaerffili glywed oddi wrthych.**

Ffôn: 01443 811490
E-bost: GofaluAmGaerffili@caerffili.gov.uk

Mae tîm Gofalu am Gaerffili ar gael yn ystod oriau swyddfa - Llun-Gwener (9am-5pm).

Ar gyfer ymholiadau cyffredinol neu geisiadau am wasanaethau Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, parhewch i ddefnyddio prif rif y switsfwrdd.

